| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 134 – Llefaru Unigol 19 – 25 oed |
| | **Detholiad o Llyfr Glas Nebo, Manon Steffan Ros** |

"Ti'n cofio pitsa?" gofynnodd Mam yn sydyn. Roedd hi'n gorwedd ar y lawnt, ei gwallt hi'n blethen hir fatha neidr yn y gwair.

"Yndw. Ddim yn dda iawn."

"Wsti be?" Cododd Mam ar ei heistedd. "Yn y dinasoedd 'de, hyd yn oed mewn llefydd agos fatha Bangor, oeddach chdi'n gallu ffonio a chael rhywun i ddod â pitsa i dy dŷ di."

"Be?"

"Oeddach chdi'n deud be oeddet ti isio arno fo - deuda pepperoni a ham - ac wedyn roeddan nhw'n ei goginio fo, rhoi o mewn bocs a dod â fo draw i'r tŷ i chdi."

"Ond pam? Pam oedd angen i rywun arall ddod â'r pitsa os oedd 'na ffwrn a bwyd yn nhai pawb?"

"Doedd gan bobol ddim mynadd coginio bob tro."

Mae hynny'n syniad rhyfedd iawn i mi. Achos os oes 'na un peth 'dan ni'n licio'i wneud yn tŷ ni, coginio ydi o, achos mae'n golygu y byddan ni'n bwyta wedyn.

Bydd Mam a fi'n cael y sgyrsiau yma weithiau, yn eistedd yn yr ardd neu ar ben *lean-to* yn y nos, neu o flaen y tân pan mae'n bwrw eira y tu allan a 'dan ni'n trio peidio poeni bod y llysiau yn y twnnel tyfu'n mynd i farw. Sgyrsiau am yr adegau cyn Y Terfyn, pethau fel y we, oedd yn anferth ac yn llawn gwybodaeth a llunia a geiria ond doedd neb yn gwybod yn iawn lle oedd o. Neu ryfeloedd, pan oedd pobol bwysig yn ffraeo ac wedyn yn cael pobol llai pwysig i ladd ei gilydd. Mae Mam yn deud, "Roedd o'n gwneud mwy o synnwyr cyn Y Terfyn, ac efallai bod y ddau beth yna chydig bach yn wahanol."

"Meddylia tasan ni'n gallu ffonio am bitsa rŵan," 'deudais i, a gwên fawr ar fy wyneb. Dydw i ddim yn cofio blas pitsa, ond mae 'na sŵn da i'r gair, sŵn heulog, cynnes. "A rhywun yn dod yma efo un mawr i ni mewn bocs."

Ysgydwodd Mam ei phen yn syth. "Faswn i ddim, sti. Faswn i ddim yn mynd yn ôl i fyw fel'na." Gwenodd arna i wedyn, gwên fawr oedd yn gwneud iddi edrych fel tasa hi ddim yn ddigon hen i fod yn fam i mi. "Dan ni'n gwneud yn ocê, dydan?"

Nodiais. "Yndan, siŵr. 'Dan ni'n neud yn iawn."

Edrychodd y ddau ohonom ni draw ar Dwynwen, oedd yn canu rhyw gân wirion ro'n i wedi ei chyfansoddi iddi rywdro. *Aaaaarch Noa, Aaaaarch Noa, mae'n dechra bwrw glaaaaw...* A dyma hi'n taflu'r dail i fyny i'r awyr fel eu bod nhw'n disgyn fel glaw am ei phen. Chwarddodd Mam.

"Cofia di, 'swn i'n gwerthu'r tŷ 'ma a bob dim sydd ynddo fo am sosej rôl..."

A dyma ni'n dau'n chwerthin, gorwedd yn ôl yn y gwair i wylio'r sêr cyntaf yn torri drwy'r glas.